# Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol y Sefydliad Siartredig Caffael a Chyflenwi (CIPS) a Noddir gan Lywodraeth Cymru

## Cwestiynau Cyffredin


**C. Faint fydd yn ei chostio?**

A. Bydd Llywodraeth Cymru yn ariannu costau'r rhaglen yn llawn. Mae hyn yn cynnwys eich ffioedd aelodaeth. Bydd amodau i'w gweld yng Nghytundeb y Dysgwr a byddant yn cael eu rhannu ochr yn ochr â gweminar trosolwg Dyfarniad Corfforaethol y CIPS a recordiwyd.

Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn cael ei chyflwyno'n rhithwir, ond bydd eich sefydliad yn gyfrifol am eich costau Teithio a Chynhaliaeth os bydd dysgu wyneb yn wyneb yn ailddechrau.

**C. A allwch chi ddweud mwy wrthyf am y broses ymgeisio?**

A. Mae camau'r broses ymgeisio a'r amserlenni amcangyfrifedig wedi'u nodi isod.




**C. A oes unrhyw feini prawf cymhwysedd ar gyfer cael lle ar y rhaglen?**

A. Oes, mae'r meini prawf cymhwysedd wedi'u nodi mewn Cytundeb Dysgu a fydd yn cael ei rannu ochr yn ochr â gweminar trosolwg y CIPS a recordiwyd. Yna mae'n rhaid ei ddychwelyd fel rhan o'ch cais. I fod yn gymwys, rhaid i chi gadarnhau:

- eich bod yn aelod parhaol o staff o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru.
- eich bod wedi cwblhau unrhyw gyfnod cyflogaeth prawf cymwys gyda'ch cyflogwr presennol.
- bod gennych ganiatâd ysgrifenedig eich cyflogwr i fynychu'r Rhaglen drwy gadarnhad e-bost i'w gyflwyno ar adeg y cais.
- bod gennych 12 mis o brofiad mewn rôl gaffael erbyn dechrau'r rhaglen.
- eich bod yn newydd-ddyfodiad i'r rhaglen CIPS h.y. ddim rhan o'r ffordd drwy astudio'r rhaglen mewn Prifysgol arall yng Nghymru.

- eich bod wedi gwylio'r gweminar trosolwg y CIPS gorfodol a recordiwyd a fydd yn cael ei threfnu yn dilyn y cyfnod mynegiant o ddiddordeb. Bydd gofyn i chi gadarnhau eich presenoldeb fel rhan o'ch cais.

**C. Beth yw'r broses ddethol?**

A. Bydd y broses ddethol yn cynnwys eich ymatebion yn y Ffurflen Gais yn cael eu hadolygu gan dîm bach o staff caffael masnachol. Yn dilyn adolygiad cychwynnol a rhoi sgôr i'r ymgeiswyr, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu i sicrhau bod sectorau ac ardaloedd daearyddol yn cael eu cynrychioli'n deg ymhlith y carfannau.

Os bydd sefydliad yn cyflwyno nifer uchel o geisiadau, efallai y byddwn yn gofyn i'ch cyflogwr flaenoriaethu'r rhain. Rhaid i Gytundeb y Dysgwr hefyd gael ei lofnodi a'i ddychwelyd gyda'ch cais ynghyd â chaniatâd rheolwr llinell ar gyfer eich lle drwy e-bost.

**C. Beth sy'n digwydd pan fyddaf yn ymuno â'r rhaglen?**

A. Bydd Llywodraeth Cymru yn dyrannu grŵp carfan i fyfyrwyr er mwyn sicrhau rhaniad daearyddol a sector teg. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu'r rhestr o fyfyrwyr i CIPS a fydd wedyn yn rheoli'r broses sefydlu gan gysylltu'n uniongyrchol â phob myfyriwr o'r pwynt trosglwyddo. Bydd y CIPS yn rhoi pecyn croeso i chi, yn cadarnhau eich amserlen a'ch rhif aelodaeth. Byddant hefyd yn rhoi gwahoddiad i fyfyrwyr ar gyfer y sesiwn sefydlu a gynhelir cyn dysgu yn yr ystafell ddosbarth.

**C. A oes unrhyw amodau ynglŷn â derbyn os caf gynnig lle ar y rhaglen?**

A. Oes, bydd amodau'r rhaglen yn cael eu cynnwys yng Nghytundeb y Dysgwr. Bydd hyn yn cael ei gyhoeddi ynghyd â'r weminar trosolwg o raglen y CIPS a recordiwyd.

Bydd gofyn i chi a'ch cyflogwr lenwi Cytundeb y Dysgwr yn cadarnhau eich bod yn derbyn yr amodau ac yn ei ddychwelyd gyda'ch ffurflen gais.

**C. A fydd yn rhaid i mi dalu fy aelodaeth CIPS fy hun?**

A. Na, mae costau aelodaeth yn cynnwys eich ffioedd dysgu. Os byddwch yn gohirio eich astudiaethau, bydd gofyn i chi ariannu eich ffioedd aelodaeth eich hun wrth ailymuno â'r rhaglen.

**C. Faint o leoedd fydd yn cael eu cynnig?**

A. Bydd nifer penodol o leoedd yn cael eu cynnig.

**C. Sut mae wedi'i strwythuro?**

A. Bydd amserlen y rhaglen ar gael maes o law. Bydd dysgwyr yn cael lle drwy drefniant carfan.

**C Ble alla i gael rhagor o wybodaeth am strwythur y rhaglen?**

**A** Mae rhagor o wybodaeth a thaflen gynnyrch ar gael trwy wefan y CIPS. Cliciwch yma i gael mynediad i'r wefan.

**C. Beth yw'r disgwyliadau arnaf o ran ymrwymiadau astudio?**

**A.** Bydd gweminar trosolwg o raglen y CIPS yn cael ei recordio a'i rhyddhau yr wythnos yn dechrau 8 Gorffennaf yn egluro'r hyn a ddisgwylir gan fyfyrwyr ar y rhaglen.

**C. Pa ymrwymiad amser sydd ei angen i gwblhau'r cwrs?**

A. Mae Atodiad 1 yn nodi'r oriau dysgu dan arweiniad amcangyfrifedig dros gyfnod y cwrs. Sylwch fod maes llafur yr ymarferydd yn cael ei adolygu a allai effeithio ychydig ar hyd y rhaglen.

**C. Ble fydd y modiwlau'n cael eu cyflwyno?**

A. Bydd ystafelloedd dosbarth rhithwir yn cael eu cynnal trwy Microsoft Teams. Bydd unrhyw hyfforddiant wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth yn cael ei gynnal yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru ledled Cymru.

**C. A oes arholiadau?**

A. Na. Rhaglen ar sail aseiniad yw hon.

**C. Sut ydw i'n gwneud cais?**

A. Bydd y ffurflen gais a Chytundeb y Dysgwr yn cael eu darparu i fyfyrwyr ochr yn ochr â'r gweminar trosolwg o Raglen y CIPS a recordiwyd.

**C. Sut y bydd y rhaglen yn cael ei hysbysebu?**

A. Bydd y rhaglen yn cael ei hysbysebu trwy'r dulliau cyfathrebu arferol – cylchlythyr, e-byst rhanddeiliaid a thrwy dudalennau Twitter a LinkedIn Caffael Masnachol Llywodraeth Cymru.

**C. Pryd fydd yn cael ei hysbysebu?**

A. Rhagwelir y bydd y cyfnod mynegi diddordeb ar gyfer lefel yr Ymarferydd yn ystod mis Mehefin - Gorffennaf. Bydd gweminar trosolwg y CIPS a recordiwyd ar gael yr wythnos yn dechrau 8 Gorffennaf i gefnogi'r broses ymgeisio ffurfiol a drefnwyd ar gyfer canol Gorffennaf - Awst.

**C. A yw'r dyddiadau'n hyblyg?**

A. Na – bydd dyddiadau cyflwyno'r cwrs yn ddyddiadau penodol.

**C. A allaf wneud unrhyw un o'r cyrsiau ar-lein?**

A. Mae'r cwrs yn cael ei gyflwyno ar hyn o bryd trwy amgylchedd rhithwir gan ddefnyddio Microsoft Teams. Yn y pen draw, efallai y bydd yn symud i sesiynau wyneb yn wyneb yn yr ystafell ddosbarth yn swyddfeydd LIC. Rhaid i fyfyrwyr sicrhau mynediad digonol i'r feddalwedd.

**C. Rwyf eisoes yn astudio Lefel 4 gyda Phrifysgol arall, a allaf ymuno â'r rhaglen hon?**

A. Na, mae'r rhaglen ar gyfer newydd-ddyfodiaid yn unig.

C. **Pa mor hir fydd yn ei gymryd i'w chwblhau?**

A. Bydd y rhaglen Ymarferydd Lefel 4 yn cymryd tua 9 mis i'w chwblhau ond mae'r maes llafur yn cael ei ailwampio a all effeithio ar hyd y rhaglen. Bydd y rhaglen Ymarferydd Uwch yn cymryd tua 14 mis i'w chwblhau.

**C. Ble allaf gael mwy o wybodaeth am y Dyfarniad Corfforaethol?**

A. Bydd y ddolen hon yn mynd â chi i'r dudalen Dyfarniad Corfforaethol ar wefan y CIPS [Rhaglen Dyfarniad Corfforaethol y CIPS.]

**C. A fyddaf yn derbyn cymhwyster proffesiynol trwy gwblhau rhaglen lawn y CIPS?**

**A** Mae Dyfarniad Corfforaethol y CIPS yn llwybr cymhwysol i gyflawni MCIPS ac nid yw'n gymhwyster rheoleiddiedig. Y llwybr arholi yw'r unig ffordd o ennill y cymhwyster hwn.

**C. Ydw i'n gallu gohirio fy lle ar y rhaglen?**

A. Gallwch ohirio eich lle trwy ffurflen ohirio y mae'n rhaid ei e-bostio at y CIPS a'r blwch post Gallu Masnachol ar yr un pryd ond mae'n rhaid i chi ymrwymo i ddyddiad ailymuno fel rhan o'r broses ohirio.

**C. Beth os byddaf yn dechrau'r rhaglen ac yna'n gorfod rhoi'r gorau i'm hastudiaethau?**

A. Gall myfyrwyr roi'r gorau i'w hastudiaethau o dan amodau penodol. Mae Cytundeb y Dysgwr yn nodi'r amodau ar gyfer rhoi'r gorau iddi ac ad-dalu. Bydd hwn ar gael ochr yn ochr â'r recordiad gweminar trosolwg y CIPS.

**C. Beth yw'r diweddaraf y gallaf dynnu'n ôl o'r rhaglen os bydd fy amgylchiadau'n newid?**

A. Caniateir tynnu'n ôl hyd at y cam sefydlu, sef pan sefydlir aelodaeth myfyrwyr gan CIPS. Bydd unrhyw dynnu'n ôl yn dilyn y cam hwn yn arwain at golli cyllid na ellir ei hawlio yn ôl gan y CIPS. Bydd angen cadarnhad gan eich rheolwyr llinell o amgylchiadau esgusodol fel rhan o'ch tynnu'n ôl. Bydd gofyn i'ch sefydliad dalu rhan neu'r holl gostau am eich lle ar y rhaglen a gofynnir i ddeiliaid y gyllideb trwy Gytundeb y Dysgwr a'r ffurflen gais i dderbyn yr amod hwn trwy lofnod. Mae tynnu'n ôl yn cael ei fonitro a'i adrodd yn fewnol i Uwch Dîm Arweinyddiaeth Caffael Masnachol.

**C. Pwy sy'n gyfrifol am ad-dalu fy ffioedd os byddaf yn tynnu'n ôl neu os byddaf yn rhoi'r gorau i gyflogaeth yn y sector cyhoeddus yng Nghymru?**

A. Bydd eich cyflogwr yn gyfrifol am ad-dalu eich ffioedd os byddwch yn tynnu'n ôl yn unol â'r amodau yng Nghytundeb y Dysgwr.

**C. Fy nghyfrifoldeb i oedd yr ad-daliad yn achos tynnu'n ôl yn flaenorol, pam mae hyn wedi newid i'r cyflogwr?**

A. Nid ydym yn cadw'r wybodaeth i'n galluogi i adennill unrhyw golledion ac rydym yn dibynnu ar eich ewyllys da i rannu gwybodaeth am eich statws cyflogaeth.

Eich cyflogwr fydd yn y sefyllfa orau i reoli'r wybodaeth hon gyda ni a chytuno ar gynllun ad-dalu gyda chi, os oes angen.

Dylid anfon pob ymholiad pellach at GalluMasnachol@llyw.cymru

## ATODIAD 1 – Oriau Dysgu dan Arweiniad – Rhaglen Ymarferydd

### Oriau Dysgu dan Arweiniad Ymarferydd Dyfarniad Corfforaethol y CIPS.

| **Ymarferydd** | |
|---|---|
| Sefydlu | 3 awr |
| 5 x Modiwl Hyfforddi Deuddydd | 80 awr |
| 3 Asesiad Normadol (Argymhellir 40 awr o Hunan-astudio fesul Modiwl dros gyfnod o 4 wythnos) | 120 awr |
| Asesiad Integreiddiol (Argymhellir o leiaf 80 awr o Hunan-astudio) | 80 awr |
| **Cyfanswm Lefel Ymarferydd** | **283** |

**Sylwer**

Mae'r cyfrifiadau ar gyfer y Digwyddiad Sefydlu wedi'u cyfrifo fel digwyddiad 3 awr a gyflwynir gan weminar. Os cyflwynir y digwyddiad sefydlu fel digwyddiad wyneb yn wyneb 1 diwrnod, yna cyfrifir yr oriau dysgu dan arweiniad fel 8 nid 3.

Cyfrifwyd hunan-astudio yn seiliedig ar o leiaf 2 awr y dydd dros gyfnod o 4 wythnos i ddatblygu aseiniad ar gyfer pob papur.

Mae'r diwrnod hyfforddi yn seiliedig ar ddiwrnod hyfforddi 8 awr arferol.

Prawf Moeseg – os yw myfyriwr yn sefyll y Prawf Moeseg dylid ychwanegu 4 awr ychwanegol at y cyfanswm.

---

### Oriau Dysgu dan Arweiniad Ymarferydd Uwch Dyfarniad Corfforaethol y CIPS

| **Ymarferydd Uwch** | |
|---|---|
| Sefydlu | 3 awr |
| 10 x Diwrnod o Fodiwlau Hyfforddi | 80 awr |
| Gweithdai | 80 awr |
| 4 Asesiad Normadol Modiwlau Sengl (o leiaf 40 awr o Hunan-astudio fesul Modiwl) | 160 awr |
| 1 Asesiad Normadol Modiwlau Dwbl (argymhellir o leiaf 80 awr o Hunan-astudio) | 80 awr |
| 3 x Cymhorthfa Prosiect | 3 awr |
| Prosiect Ymchwil | 120 awr |

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm Lefel Ymarferydd Uwch** | **526 awr** |

**Sylwer**

Mae'r cyfrifiadau ar gyfer y Digwyddiad Sefydlu wedi'u cyfrifo fel digwyddiad 3 awr a gyflwynir gan weminar. Os cyflwynir y digwyddiad sefydlu fel digwyddiad wyneb yn wyneb 1 diwrnod, yna cyfrifir yr oriau dysgu dan arweiniad fel 8 nid 3.

Cyfrifwyd hunan-astudio yn seiliedig ar o leiaf 2 awr y dydd dros gyfnod o 4 wythnos i ddatblygu aseiniad ar gyfer pob papur.

Mae'r diwrnod hyfforddi yn seiliedig ar ddiwrnod hyfforddi 8 awr arferol.

**Prawf Moeseg** – os yw myfyriwr yn sefyll y Prawf Moeseg dylid ychwanegu 4 awr ychwanegol at y cyfanswm.